Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y Bwrdd Rheoli

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Medi 2011
## 09:00-11:00, Ystafell Gynadledda 4B

**Yn bresennol:**
**Claire Clancy (Prif Weithredwr a Chlerc) (Cadeirydd)**
**Dianne Bevan (Prif Swyddog Gweithredu)**
**Keith Bush (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol)**
**Adrian Crompton (Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad)**
**Connie Cockburn (Pennaeth yr Adran Ystadau a TGCh)**
**Non Gwilym (Pennaeth Cyfathrebu)**
**Sulafa Thomas (Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad)**
**Steven O'Donoghue (Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad)**
**Mair Parry-Jones (Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi)**
**Kathryn Potter (Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil)**
**Craig Stephenson (Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau)**
**Sian Wilkins (Pennaeth y Gwasanaethau Siambr a Deddfwriaeth)**
**Helen Finlayson (Ysgrifenyddiaeth)**
**Ross Davies (Rheolwr Cydraddoldeb) – eitem 7**
**Lynne Flux (Pennaeth Archwiliad Mewnol) – eitem 7**

**1.0 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**

**1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.**

**2.0 Cyfathrebu â staff**

**2.1 Non Gwilym i ddrafftio nodyn ar drafodaethau'r Bwrdd Rheoli ar gyfer y dudalen newyddion ar y we.**

**3.0 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi 2011**

**3.1 Cytunwyd ar y cofnodion fel cofnod cywir.**

Materion yn codi

3.2 Mae gwaith yn parhau o ran dod o hyd i waith prosiect y gellir ei ddwyn ymlaen i 2011-12 ac mae rhai opsiynau posibl wedi'u nodi. Mae Adnoddau Dynol yn datblygu cynigion sy'n ymwneud â phroffesiynoli staff, fel y trafododd y Bwrdd ar 13 Medi.

3.3 Diolchodd y Bwrdd i'r tîm Cyllid am ei waith ar gyllideb ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2012-13, sydd wedi cael ymateb cadarnhaol gan y Comisiwn. Bydd y Pwyllgor Cyllid yn craffu ar y gyllideb ddrafft ar 6 Hydref.

4.0 Adroddiad rheolaeth ariannol

4.1 Nododd y Bwrdd bod tanwariant o tua £1 miliwn wedi'i amcangyfrif ar gyfer diwedd y flwyddyn. Bydd angen gwneud penderfyniad erbyn mis Rhagfyr ynghylch a oes angen cyllideb ychwanegol er mwyn dychwelyd cyllid i'r Bloc Cymreig.

4.2 Trafodwyd meysydd posibl ar gyfer gwaith prosiect newydd yn 2011-12, neu waith prosiect y gellir ei ddwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol gyfredol, gan gynnwys darparu systemau cyfieithu ar y pryd a sain yn y Pierhead, ac opsiynau ar gyfer gwella'r cyfleusterau ar fws y Cynulliad.

4.3 Cytunwyd y byddai Steven O'Donoghue yn paratoi papur, i'w ystyried gan y Comisiwn yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd, ar ddychwelyd cyllid na chafodd ei wario o gyllideb yr etholiad i'r Bloc Cymreig, a chynigion ar gyfer rheoli'r risg o danwariant yn effeithiol mewn perthynas â chyllideb Gwasanaethau'r Cynulliad.

Camau Gweithredu:

Steven O'Donoghue i baratoi papur at gyfer cyfarfod y Comisiwn ym mis Tachwedd ar ddychwelyd cyllid na chafodd ei wario o gyllideb yr etholiad i'r Bloc Cymreig, a chynigion ar gyfer rheoli'r risg o danwariant yn effeithiol mewn perthynas â chyllideb Gwasanaethau'r Cynulliad..

5.0 Opsiynau ar gyfer gwasanaethau TGCh ar ôl 2014

5.1 Bydd y Comisiwn yn dechrau ystyried opsiynau ar gyfer gwasanaethau TGCh ar ôl 2014 yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd. Trafododd y Bwrdd sut y byddai'n ymdrin â'r mater, a'r wybodaeth a'r dystiolaeth y byddai eu hangen er mwyn cynorthwyo'r Comisiwn i wneud penderfyniad.

Camau Gweithredu:

Connie Cockburn i baratoi papur drafft i'r Comisiwn ar opsiynau ar gyfer gwasanaethau TGCh ar ôl 2014, gan ystyried y trafodaethau sydd wedi digwydd a'r adborth sydd wedi dod i law.

6.0 Adroddiad amgylcheddol blynyddol

6.1 Trafododd y Bwrdd y lefel uchel o gyrhaeddiad a gafwyd yn erbyn y targedau, sydd wedi arwain at leihad sylweddol o ran allyriadau $CO_2$. Yn rhannol, roedd hyn oherwydd llai o deithio ar fusnes, wedi i nifer y teithiau leihau o ganlyniad i ddiddymiad y Trydydd Cynulliad a chyfyngiadau cyllidebol. Mae'r buddsoddiad mewn systemau rheoli adeiladau ac arferion gweithredu mwy effeithiol wedi cyfrannu'n sylweddol at y lleihad. Nododd Connie Cockburn bod ymchwiliadau pellach yn cael eu gwneud ar gyfer prosiectau eraill sydd angen buddsoddiad. Mae'r prosiectau hynny yn cymryd i ystyriaeth y tebygrwydd y byddai dod o hyd i leihad yn dod yn anoddach flwyddyn ar ôl blwyddyn.

6.2 Diolchodd y Bwrdd i'r tîm am y gwaith a wnaed ar yr adroddiad, a'i longyfarch. Nodwyd a chymeradwywyd y canlynol yn ffurfiol:

- cadw tystysgrif Lefel 5 ar gyfer yr holl ystâd yn 2010;
- yr adroddiad amgylcheddol blynyddol ar argymhelliad y grŵp Clear Skies;
- canfyddiadau'r grŵp Clear Skies bod system y Ddraig Werdd yn parhau i gyfrannu tuag at wella perfformiad amgylcheddol; a
- chyrhaeddiad yn erbyn amcanion a thargedau.

Papurau Drafft y Comisiwn

7.0 Gwasanaethau Dwyieithog

7.1 Nododd y Bwrdd bod yr ymgynghoriad ar wasanaethau dwyieithog yn parhau, a bod opsiynau yn parhau i gael eu harchwilio ar gyfer cyfieithu peirianyddol. O'r herwydd, nid oes argymhellion penodol eto wedi'u gwneud i'r Comisiwn.

7.2 Trafododd y Bwrdd yr adborth cychwynnol a gafwyd yn ystod y digwyddiadau ymgynghori, a nododd bod amrywiaeth o randdeiliaid wedi ymateb. Trafodwyd y cyflwyniad ar yr opsiynau posibl i'r Comisiwn, a chytunwyd y dylid cynnwys dadansoddiad cadarn o'r risgiau a'r buddion. Cytunwyd y dylid cyfeirio'n fyr yn y papur at statws argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol ar Wasanaethau Dwyieithog.

8.0 Adolygiad ar ôl chwe mis o fuddion ac arbedion UNO

8.1 Trafododd y Bwrdd y papur a ysgrifennwyd yn dilyn cais y Comisiwn i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y buddion a wireddwyd o ganlyniad i brosiect UNO, ac i ba raddau y mae amcanion gwreiddiol y prosiect yn cael eu cyflawni. Roedd y papur hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiynwyr ar y problemau y mae rhai Aelodau a'u staff yn parhau i'w profi. Cafwyd adborth ar y meysydd y gellir eu cryfhau yn y papur, a chytunodd y Penaethiaid Gwasanaeth i ddarparu enghreifftiau o'r buddion a gafwyd o ran arferion gwaith o ganlyniad i brosiect UNO.

8.2 Cytunwyd y dylid dod o hyd i ffyrdd o roi gwybod i Aelodau am unrhyw broblemau, a rhoi gwybod iddynt pan fyddai datrysiadau ar gyfer y problemau hynny'n cael eu darganfod.

8.3 Nododd y Bwrdd bwysigrwydd nodi ffyrdd o fesur y buddion a wireddir yn ystod camau cynnar cynllunio prosiect, er mwyn galluogi meincnodi drwy gydol y broses.

Camau Gweithredu:

Y Penaethiaid Gwasanaeth i ddarparu enghreifftiau o'r buddion a gafwyd o ran arferion gwaith o ganlyniad i brosiect UNO.

Connie Cockburn i ddod o hyd i ffyrdd o roi gwybod i Aelodau am unrhyw broblemau, a rhoi gwybod iddynt pan fyddai datrysiadau ar gyfer y problemau hynny'n cael eu darganfod.

9.0 Gwella cymorth mynediad i Aelodau'r Cynulliad

9.1 Nododd y Bwrdd bod adborth wedi dod i law gan rhai Aelodau Cynulliad ynghylch y darpariaethau sydd ar gael o ran cyfieithu, addasiadau rhesymol i swyddfeydd etholaethol a rhanbarthol, a chymorth cyfieithu ar gyfer grwpiau trawsbleidiol. Cred yr Aelodau hyn nad yw'r darpariaethau'n ddigonol i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau fel Aelodau.

9.2 Mae Aelodau'n gallu hawlio costau cyfieithu o'u lwfansau costau swyddfa, neu, ar gyfer cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg, fe allent ddefnyddio cyllid canolog. Nid yw grwpiau trawsbleidiol, ac eithrio un, yn cael unrhyw gymorth ariannol na gweinyddol ar hyn o bryd. Mae addasiadau rhesymol i swyddfeydd etholaethol neu ranbarthol yn cael eu talu gan lwfans o £1,000, sef swm a gafodd ei bennu gan y Bwrdd Taliadau. Gall addasiadau sy'n costio mwy na'r swm hwn gael eu hariannu'n ganolog, gyda chaniatâd o flaen llaw.

9.3 Cytunwyd y dylai'r opsiynau ar gyfer darparu cyllid canolog, sydd o fewn cylch gwaith Comisiwn y Cynulliad, gael eu cynnwys yn y papur. Byddai'r Bwrdd Taliadau yn cael gwybod am benderfyniadau Comisiwn y Cynulliad, a byddai'n penderfynu a oes angen diwygio'r Penderfyniad a wnaed.

Cloi'r cyfarfod

10.0 Unrhyw fater arall

10.1 Nid oedd busnes arall i'w drafod.

11.0 Agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf

11.1 Claire a'r cyfarwyddwyr i gytuno ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Yr Ysgrifenyddiaeth
Medi 2011